



Nodion Seion

Medi 2017

Myfyrdod gan y Gweinidog

Tangnefedd a Thangnefeddwyr

Mae'r gair Cymraeg tangnefedd yn gyfuniad o *tanc* (hen air am heddwch), a *nefedd* (neu nefoedd). Tangnefedd felly yw "heddwch nefol". Rhodd gan Dduw yw tangnefedd.

Beth yn hollol yw'r tangnefedd hwn? Nid rhywbeth sy'n eiddo i'r sawl sy'n cau'r byd a'i ofid a'i anawsterau allan o'i feddwl yw tangnefedd. Mae yna lawer i ddyn twyllodrus ac annuwiol yn ymffrostio nad oes dim yn brathu ei gydwybod ac nad oes ganddo unrhyw ofid am ei bechodau a'r modd mae ef wedi dolurio hwn ac arall. A yw hynny'n golygu fod gan ddyn felly dangnefedd? Nac ydy wir: golyga fod dyn felly mewn ystyr ysbrydol yn gorff. Nid absenoldeb pob cynnwrf, cythrwfl, aflonyddwch ac anesmwythyd yw tangnefedd ond yn hytrach presenoldeb rhyw sicrwydd yn y galon – y sicrwydd sy'n eiddo i'r crediniwr na all dim ei wahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu.

Yn yr Arglwydd Iesu Grist yr ydym yn gweld, yn adnabod ac yn meddiannu Duw. Yn yr Arglwydd Iesu Grist, gwelwn Dduw yn ei sancteiddrwydd a'i gariad, Duw na fydd byth yn ein gwatwar yn ein bychander a'n gwendidau dynol. Mae ei gariad mor fawr tuag atom. Mae ef wedi dioddef i'n hachub. Adnabod Duw yn Iesu Grist yw'r cam cyntaf i brofi gwir dangnefedd. Mae tangnefedd yn rhodd i'r crediniwr sy'n cadw ei olwg ar Iesu. Cawn yr addewid yn y Gair, "Yr wyt yn cadw mewn heddwch perffaith y sawl sydd â'i feddylfryd arnat, am ei fod yn ymddiried ynot" (Eseia 26:3). Sylwch ar y geiriau "y sawl sydd â'i feddylfryd arnat". Dengys hyn bod angen troi at Dduw yn ffyddlon ac yn gyson i brofi tangnefedd parhaus – rhaid ymddiried ynddo.

Clywais hanes bachgen deuddeg oed o'r enw Bili oedd yn byw yng Nghymoedd y De yn y cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd ei yrru i weithio tan ddaear ac ar ei ddiwrnod cyntaf cafodd ei osod mewn siafft ymhell oddi wrth y glowyr eraill. Cafodd y gwaith diflas a chaled o rofio llwch glo oedd wedi troi'n fwd i mewn i dram. Gadawodd y sawl oedd yn ei oruchwylio yno ar ei ben ei hun gyda lamp olew yn gwmni iddo. Dim ond digon o olau am awr oedd yn y lamp. Pan ddarfu'r olew diffoddodd y lamp gan adael Bili yn y tywyllwch dudew. Ni wyddai sut oedd dod allan o'r siafft ac roedd e'n ofnus.

Yna cofiodd rhywbeth ddywedodd ei fam wrtho cyn iddo gychwyn am y gwaith. "Cofia Bili fod Iesu gyda thi bob amser, hyd yn oed yn y pwll glo." O gofio geiriau ei fam fe wnaeth Bili gydnabod presenoldeb Iesu. Gweddiodd ar Iesu wrth iddo barhau gyda'i waith yn y tywyllwch a chyfrif pob cam yn ofalus oddi wrth y llwch glo mwdlyd draw at y dram roedd yn rhoio'r glo mwdlyd i mewn iddo. Bu'n canu emynau ac yn siarad â'r Gwaredwr wrth iddo weithio yn y tywyllwch ac wrth iddo wneud hyn troes ei ofn yn dangnefedd. Gweithiodd yn galed drwy'r dydd a'r cwbl fel y fagddu. Gwnaeth ddiwrnod da o waith a daeth llawenydd i'w galon o sylweddoli ei fod wedi llwyddo i wneud cymaint wrth iddo aros yng Nghrist. Ar ddiwedd y shift daeth y sawl oedd yn ei oruchwylio i chwilio amdano. Roedd hwnnw'n fwiadol wedi ei adael heb gyflenwad digonol o olew yn ei lamp. Gofynnodd iddo a oedd e'n ofnus wedi treulio'r dydd ar ei ben ei hun yn y tywyllwch. Atebodd, "Doeddwn i ddim ar fy mhen fy hun. Roedd Iesu gyda mi." O'r diwrnod hwnnw cafodd y llysenw, "Bili 'da'r Iesu". Dyna i chi

lysenw godidog. Dyna i chi ganmoliaeth. “Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chwi” (Ioan 15:4), meddai Iesu. “Cynhwyswch fi ym manylion eich dydd ac fe wnafl finnau lenwi eich bywydau a thangnefedd a grym.”

Presenoldeb yr Arglwydd Iesu Grist ynom ni sy'n rhoi grym i ni fod yn weithredwyr tangnefedd. Offerynnau neu sianelau i dangnefedd ydym ni wrth i Grist weithio trwom ni a'n galluogi i greu harmoni. Cawn, os ydym yn dangnefeddwyr, ein hadnabod fel plant i Dduw. Duw yr heddwch yw Duw, a gwneuthurwyr tangnefedd yw ei blant. Mae Duw trwy weinidogaeth ei annwyl

Fab wedi greu heddwch a chymod rhwng y pechadur edifeiriol a Duw ac mae'n nerthu'r crediniwr i brofi'r llawenydd a'r dedwyddwch o ddilyn ôl traed yr Arglwydd Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd.

*Arglwydd, gwna fi'n gyfrwng dy dangnefedd,
i hau cariad lle bo casineb,
i faddau lle bo cam,
i uno lle bo ysgar,
i blannu ffydd lle bo amheuaeth,
a gobaiith lle bo digalondid;
i hau goleuni lle bo tywyllwch,
a llawenydd lle bo tristwch.*

Andrew Lenny

Aelodau a hunodd

Yr Athro Emeritws Dafydd Bowen (3:8:17)
Mr Edryd Jones (13:9:17)

Cydymdeimlwn ag aelodau a gollodd anwyliaid

Mrs Thelma Wilson (brawd), Mrs Gwyneth Jones (gŵr a chwaer yng nghyfraith), Mrs Iona Jones (tad a modryb), Mr Huw Jones (tad yng nghyfraith), Miss Angharad Jones (taid), Mr Carwyn Jones (taid), Mr Rhys Gwynant Jones (taid), Mr Gareth Jones (tad a modryb), Miss Mair Thomas (chwaer yng nghyfraith), Y Parchedig Irfon Evans (cyfnither), Mrs Lynne Lewis (ewythr).

Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth

Mrs Cassie Pugh, Mr Elfed Lewis, Mrs Eirian Gibson, Mr David Jenkins, Parchg. Irfon Evans, Mr Matthew Evans, Mrs Eluned Lewis, Yr Athro Ieuan Gwynedd Jones, Mrs Helena Rees, Mrs Val Rees, Mrs Gwenda James, Mrs Lynne Lewis, Dr Edward Millward, Mr Wil Price Jones, Mr Emyr James, Mrs Maud Farrow.

Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd Siop Cymorth Cristnogol yn Ffestri Seion gan godi £976. Diolch i bawb a fu'n gweithio yno ac am y cyfraniadau at y Stondin Gacennau. Diolch hefyd i Mair Rowlands, Beryl Jenkins a Delyth Fletcher am ddsosbarthu'r amlenni o ddrws i ddrws gan gasglu £296.

Hefyd cynhaliwyd Cinio Bara a Chaws yn festri Seion ar 5 Mehefin, 2017 gan godi £181.25. Diolch i bawb a fu'n gweini ac i Anita Owen am gydlynw'r cyfan ar ein rhan.

Llongyfarchiadau

i Betsan a Dylan Llewelyn-Jones ar enedigaeth Guto, brawd bach i Cati a Beca, wŷr i Russell a Nerys Davies a gor-wŷr i Dai a Beryl Llewelyn.

i blant ac ieuenticid yr Ysgol Sul ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-coed. Braf iawn oedd gweld Megan, Cari, Megan Elizabeth, Gruffudd ac Elinor ar y teledu. Rydym yn falch iawn ohonoch chi.

i Sophie Rudge ar ennill gradd mewn cerddoriaeth o Brifysgol Durham.

i Angharad Edwards ar ennill Gwobr Goffa Wil Petherbridge a gyflwynir gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.


i David a June Griffiths ar ddatlu eu Priodas Aur.

i Mrs Beryl Llewelyn ar ddatlu ei phen blwydd yn 90 oed.

i Dylan Powell a Catrin Edwards ar eu priodas yn Seion ar 29 Gorffennaf, 2017.

i Dafydd Edwards a Beth Harries ar eu priodas ym Mhenbryn ar 9 Medi, 2017.

Lansio Cyfrol ar Hanes Seion



Ar derfyn yr oedfa ar nos Sul, 16 Gorffennaf, 2017 lansiodd cyfrol Glyn Lewis Jones: Eglwys Gynulleidfaol Seion – Yr Hanes 1878 – 2008. Mae Glyn wedi pori'n helaeth yn casglu gwybodaeth amrywiol am weithgarwch yr eglwys hyd 2008. Yn garedig iawn, mae Glyn yn cyflwyno copi o'r gyfrol yn rhodd i bawb sy'n ceisio copi ganddo.

Cyfeiriad Newydd

Y Parchedig Irfon Evans a Mr Huw Evans, "Tregâr", Garth, Penrhyncoch, SY23 3EP

Lowri Steffan, Y Berllan, Llanilar

Rhodd

Diolch yn fawr iawn i Mrs Thelma Wilson am ei rhodd o £300 er cof am ei brawd Mr Raymond Jones a oedd fel hithau yn un o blant Seion.

Oedfaon Teuluol

Cynhaliwyd Oedfa Deuluol ar fore Sul, 16 Gorffennaf ar y thema "Ffyddlondeb a Chariad" gan ganolbwyntio ar hanes Pedr. Cyflwynwyd Llyfryn Open Doors yn yr oedfa. Yn y llyfryn gwerthfawr hwnnw enwir 50 o wledydd yn y byd lle mae Cristnogion yn cael eu herlid ynghyd ag ychydig o wybodaeth am y gwledydd a chanllawiau penodol i weddio dros ein brodyr a'n chwiorydd o dan erledigaeth. (Diolch i bawb sydd wedi arwyddo'r ddeiseb a baratowyd gan Open Doors – Miliwn o Leisiau o Obaith).

Diolch yn fawr iawn i'r plant a'r ieuencid ynghyd â nifer o famau'r Ysgol Sul a gymrodd ran yn yr oedfa.

Cynhaliwyd Oedfa Deuluol a Chymun ar fore Sul, 3 Medi yn seiliedig ar yr adnod, "Ystyr

cariad ydy ein bod ni'n byw fel mae Duw'n dweud wrthon ni" (II Ioan 6). Diolch yn fawr iawn i'r plant a'r ieuencid am eu cyfraniad arbennig i'r oedfa.

Trefn Gwasanaethau'r Cymun

1 Hydref (hwyr); 5 Tachwedd (hwyr);
3 Rhagfyr (bore).

Pregethwyr

29 Hydref: Parchedig Emyr Gwyn Evans
19 Tachwedd (*i'w drefnu*)

Dosbarth Beiblaidd

Bydd y Dosbarth Beiblaidd yn ail gychwyn ym mis Hydref. Byddwn yn parhau gyda'n hastudiaeth o I Corinthiaid 13. Y cymal nesaf o dan sylw fydd, "Nid yw cariad yn ceisio ei ddibenion ei hun" / "Nid yw cariad yn mynnu ei ffordd ei hun drwy'r adeg" (I Corinthiaid 13: 5(b)).

Y Ffordd

Mae'r sesiynau rydym wedi eu cynnal ar Gynllun y Ffordd wedi bod yn ddymunol ac yn adeiladol. Ein bwriad yn dilyn yr Ŵyl Ddiolchgarwch yw cyfarfod ar noson gyfleus i ystyried Rhan 3 y cynllun. Y cwestiwn o dan sylw yw, "Beth mae Cristnogion yn ei gredu heddiw?"

I'ch Dyddiadur...

Dydd Mercher, 20 Medi

10.30 Bore Coffi Cymdeithas y Capel

Dydd Sadwrn, 30 Medi

10.00 – 12.00 Bore Coffi er budd Elusen
Cymorth Macmillan

Dydd Llun, 2 Hydref

Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol yng
Nghanolfan St Paul

Yr Ŵyl Ddiolchgarwch

Dydd Sul, 8 Hydref

10.00 Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul.
"Tyfu bwyd a thyfu i adnabod yr Arglwydd
Iesu Grist" yw thema'r oedfa a'n bwriad
yw addurno'r ffenestri yn ôl y thema. Mae
croeso i bawb gynorthwyo a sicrhau bod
yna neges ar bob ffenest yn amlygiad o'n
diolchgarwch i Dduw am ei roddion a'i ras.
Derbynnir rhoddion dros yr Ŵyl Ddiolchgarwch
ar gyfer y Banc Bwyd ym Mhenparcau. Byddwn

yn gosod bocsys yn y cyntedd a'r festri i dderbyn
ein rhoddion. Yn ystod yr oedfa gwahoddir
y plant i ddod ymlaen â bwyd (tuniau, bwyd
sych, bisgedi...) yn Offrwm Diolchgarwch.
Bydd blychau casglu hefyd yn y cyntedd
ac fe dderbynnir rhoddion i Apêl Llifogydd
Bangladesh a drefnir gan Gymorth Cristnogol.
6.00 Oedfa'r Hwyr.

Dydd Mercher, 11 Hydref

2.30 Cynhelir Oedfa Gymun fer yn y festri fel
rhan o'r Ŵyl Ddiolchgarwch o dan arweiniad
y Gweinidog gyda the Diolchgarwch yn dilyn.

Dydd Sadwrn, 14 Hydref

10.00 – 12.00 Bore Coffi Papur Sain

Dydd Sul, 15 Hydref

Cyfarfodydd Pregethu Seion a Bethel ym
Methel. Gwasanaethir gan Y Parchg. Athro
Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan.



Trip Llanycil

Cawsom fwynhad mawr o ymweld â Chanolfan Byd Mari Jones yn Llanycil ar ddydd Sadwrn,
8 Gorffennaf. Roedd y tywydd yn odidog, byd natur yn ei ogoniant, y Ganolfan yn arbennig o
ddiddorol a'r swper ar derfyn dydd yn flasus. Diolch yn fawr iawn i Gwenda James ac Elizabeth Evans
am drefnu'r cyfan.